COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL CYMRU

CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A GYNHALIWYD DDYDD MAWRTH 21 MEHEFIN 2005 YN NHŶ CARADOG, 1-6 PLAS SAN ANDREAS, CAERDYDD CF10 3BE

Comisiwn	Ysgrifenyddiaeth
Mr J E Davies (Cadeirydd)	Mr E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mrs S Smith	Mr S Halsall
Mr D H Roberts	Mr D Carr
	Swyddfa Archwilio Cymru
	Mr I Summers
	Mr M Jones
	Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Gwasanaethau Archwilio Mewnol)
	Mrs G Luce
	James de Frias
	Mr S Davies

Croesawodd y Cadeirydd Mr Summers, Mr Jones, Mrs Luce a Mr Davies i'r cyfarfod.

1. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2005.

1.1 Cytunwyd ar y rhain a chawsant eu mabwysiadu yn amodol ar fân ddiwygiadau.

2. Materion yn codi.

2.1 Adroddwyd bod y Comisiwn wedi cael gwybodaeth am y pecyn meddalwedd cyfrifeg SAGE priodol. Byddai angen prynu'r feddalwedd ac yna i MERLIN brofi ei effaith. Fodd bynnag, gan fod sawl adran yn y Cynulliad eisoes yn defnyddio meddalwedd SAGE, ystyriwyd nad oedd llawer o berygl na fyddai'r feddalwedd yn llwyddo yn y prawf effaith. Dywedodd Mr Summers bod Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn defnyddio meddalwedd SAGE a chynigiodd roi arddangosiad i staff y Comisiwn. Diolchodd Mr Lewis i Mr Summers am ei gynnig a dywedodd y byddai'n cysylltu ag ef yn fuan i drefnu dyddiad addas ar gyfer arddangosiad.

3. Cyfrifon Blynyddol 2004-05.

3.1 Rhoddodd Mr Davies gyflwyniad ar y cyfrifon i'r Comisiwn, gan dynnu eu sylw at y prif faterion o bwys. Dangosodd y cyfrif Incwm a Gwariant bod gan y Comisiwn

warged bach ar gyfer diwedd y flwyddyn a oedd yn cymharu'n ffafriol â'r diffyg a welwyd yn y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Cafodd y prif feysydd newidiadau yng ngwariant y Comisiwn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol eu nodi yn Nodyn 4 y cyfrifon. Ar y cyfan, bu gostyngiad yn y gwariant yn sgil gwneud llai o waith adolygu a gostyngiad sylweddol yng nghostau TG yn arwain o'r cyfraddau prydlesu is a godwyd gan bartneriaeth MERLIN y Cynulliad. Fodd bynnag, bu cynnydd mewn rhai meysydd gwariant. Roedd costau teithio a chynhaliaeth yr ysgrifenyddiaeth wedi cynyddu'n sylweddol yn sgil gwariant ychwanegol ar gyfer ymholiadau lleol Comisiwn Ffiniau Cymru. Cynyddodd costau adeiladau yn sgil ffioedd ymgynghori a dalwyd i Dalkia am drefnu gwaith adnewyddu a bu gwariant ychwanegol hefyd sy'n adlewyrchu cost y prosiect Mapio Wardiau Cymunedol. Gan symud ymlaen i'r Fantolen, tynnodd Mr Davies sylw'r Comisiwn at yr arian yn y banc a'r ffigur mewn llaw o £35,442 ac esboniodd, er bod hyn yn ymddangos yn ffigur gormodol i'r Comisiwn gael yn ei gyfrif banc ar ddiwedd y flwyddyn, mewn gwirionedd roedd hyn i dalu am y croniadau y disgwylir eu talu yn 2005/06, yn enwedig un croniad mawr iawn sy'n gysylltiedig â chyfnod 1 prosiect Mapio Wardiau Cymunedol.

3.2 Cadarnhaodd Mr Jones bod SAC wedi cwblhau ei harchwiliad o gyfrifon 2004/05 y Comisiwn ac y byddent yn cael eu llofnodi'n derfynol gan Ysgrifennydd y Comisiwn ac Archwilydd Cyffredinol Cymru ymhen ychydig ddyddiau. Adroddodd mai un canfyddiad o bwys a oedd wedi dod i'r amlwg o'r archwiliad oedd bod ffigur Arian yn y banc y Comisiwn o £35,442 tua £2,000 yn fwy na'r swm y cytunodd y Cynulliad Cenedlaethol y câi'r Comisiwn ei drosglwyddo o 2004-05 i 2005-06. Roedd y Cynulliad Cenedlaethol wedi'i hysbysu am y swm ychwanegol hwn a chytunwyd y byddai'n cael ei dynnu o dyniad Grant drwy gymorth yn y dyfodol. Dywedodd Mr Summers nad oedd unrhyw wallau heb eu haddasu yng nghyfrifon y Comisiwn ar gyfer 2004/05.

3.3 Diolchodd y Cadeirydd i Mr Summers, Mr Jones a Mr Davies am eu hadroddiad ar gyfrifon ac archwiliad y Comisiwn.

4. Adroddiad Archwilio Mewnol 2004/05.

4.1 Amlinellodd Mrs Luce brif ganfyddiadau adroddiad Archwilio Mewnol. Canfuwyd nad oedd y Comisiwn wedi sefydlu Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer y contract gyda Chyfreithiwr y Trysorlys. Esboniodd Mr Halsall bod un wedi'i ddrafftio ond gwaetha'r modd nad oedd wedi'i lofnodi. Adroddodd yr Ysgrifennydd bod y ddwy garfan bellach wedi cytuno ar Gytundeb Lefel Gwasanaeth newydd ac y byddai'n cael ei lofnodi'n fuan. Roedd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth newydd hwn hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer argymhelliad adroddiad yr archwiliad mewnol y dylai Cyfreithiwr y Trysorlys ddyfynnu rhifau gorchymyn prynu'r Comisiwn ar ei anfonebau.

4.2 Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys y farn y dylai'r Comisiwn geisio eglurhad gan y Cynulliad ynglŷn â'r opsiynau posibl ar gyfer cytundeb ynghylch y gwasanaethau a ddarperir gan MERLIN. Dywedodd Mr Jones y dylai fod yn bosibl i'r Comisiwn gael gohebiaeth cyd-ddealltwriaeth rhwng Swyddog Cyfrifo'r Comisiwn a'r adran noddi a fyddai'n cytuno ar gostau'r gwasanaethau a ddarperir gan MERLIN. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn mynd at yr adran noddi ynglŷn â'r mater hwn.

5. Cwynion (eitem sefydlog).

5.1 Ni fu unrhyw gŵynion ynglŷn â'r Comisiwn ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio.

6. Unrhyw Fater Arall.

6.1 Adroddwyd y byddai Adroddiad Blynyddol y Comisiwn ar gyfer 2004/05, am y tro cyntaf, yn cynnwys crynodeb o'r cyfrifon yn hytrach na fersiwn lawn.